

## CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

### COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH, 17 MAI 2022 AM 7.00 O'R GLOCH

#### YN Y GANOLFAN TALYSARN

- 1. PRESENNOL** - Gwyndaf Roberts (cadeirydd), Hefina Roberts - Llanllyfni, Dafydd Thomas - Nebo, Siân Dafydd, Gareth Jones - Talysarn, Dylan Herbert, Barry Bracegirdle, Ceri Owen, Erfyl Williams - Penygroes, Ffion Jones - Nantlle, Cynghorwyr Peter Thomas a Dafydd Davies.  
**AELODAU O'R CYHOEDD YN BRESENNOL** – Harry Owen ac Judith Humphreys.  
**YMDDIHEURIADAU** – Justin Davies (Penygroes).
- 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL YNGLŶN AG UNRHYW EITEM A DRAFODIR** - Nid oedd neb yn datgan buddiant.
- 3. CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD 12 EBRILL 2022** - Adroddodd Ffion Jones ei bod wedi mynychu'r cyfarfod ond nad oedd ei henw ar y cofnodion. Y clerc i wneud y cywiriad hwn. Cynigiodd Barry Bracegirdle bod gweddill y cofnodion yn gywir ac eiliodd Dafydd Thomas.
- 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION AC YMATEBION CYNGOR GWYNEDD - Clwb Ieuenctid** - gofynnodd Dafydd Thomas a oedd yna unrhyw ddiweddariad ar hyn ond ar hyn o bryd nid oedd dim i'w adrodd yn nol. **Golau Nadolig** - adroddodd y clerc ei bod wedi archebu'r golau ar gyfer Llanllyfni. **Ymateb Cyngor Gwynedd** - y clerc wedi cysylltu gyda'r adran priffyrdd unwaith eto ynglŷn â chyflwr y ffyrdd ayyb ac wedi derbyn ymateb heddiw yn ymddiheuro am fod yn hir yn dod 'nôl ac y bydd ymateb llawn yn cael ei roi yfory.
- 5. ADRODDIADAU GAN Y CYNGHORWYR SIR** - Roedd pawb wedi derbyn copi o adroddiad Peter Thomas a rhoddyd cyfle i godi unrhyw fater. Mynegodd Peter ei ddiolch i Dafydd Thomas am ymgyrch deg yn etholiad y Cyngor mis Mai. Diolchwyd iddo am baratoi'r adroddiad. Llongyfarchwyd Peter a Dafydd ar gael eu hethol yn gynghorwyr yn yr ardal.
- 6. SEDDI GWAG - LLANLLYFNI, PENYGROES A TALYSARN** - Adroddwyd bod yna bellach 4 o seddi gwag ar y Cyngor Cymuned - 1 yn Llanllyfni, 1 ym Mhenygroes a 2 yn Nhalysarn. Roedd y clerc wedi holi Cyngor Gwynedd beth oedd y rheolau ar gyfer llenwi'r seddi a rhaid nawr eu hysbysebu er mwyn cael enwau ac yna cyfethol aelodau newydd. Y clerc i hysbysebu'r seddi gwag ar wefan a thudalen 'facebook' y Cyngor Cymuned.
- 7. CYFARFODYDD IS-BWYLLGORAU / CYFARFODYDD YN YSTOD Y MIS** - Adroddodd Gwyndaf Roberts, Dylan Herbert a Barry Bracegirdle eu bod wedi mynychu cyfarfod gyda grŵp ADRA ar hen safle Ffatri Northwood ym Mhenygroes er mwyn gweld beth sydd yn mynd ymlaen yno. Adroddwyd bod y fenter sydd yno yn mynd i fod yn gyfle i ddod a swyddi i'r ardal. Gan fod llawer heb fedru mynychu'r cyfarfod hwn mae ADRA yn fodlon cynnal un arall yn fuan - ac awgrymir yn fawr fod pawb yn mynychu.
- 8. TAFLEN ARIANNOL A CHYLLID** - Roedd pawb wedi cael copi o'r daflen ariannol ymlaen llaw i'r cyfarfod er mwyn cael cyfle i edrych drosti. Gofynnwyd i Gareth Jones adrodd ar y sefyllfa. Dywedodd mai hwn yw mis cyntaf y flwyddyn ariannol newydd. Mae £13,000 wedi mynd allan ond rhaid cofio bod hyn yn cynnwys siec y contractwyr torri llwybrau a mynwentydd. Hefyd mae taliad wedi ei wneud am aelodaeth Unllais ac yr yswiriant blyneddol. Y clerc wedi gwneud cais am ad-daliad TAW ac yn disgwyl y taliad hwn i'r banc yn fuan.

9. **CLWB PÊL-DROED TALYSARN CELTS - PRYDLES** - Roedd ymateb wedi ei dderbyn gan Daniel Lewis Swyddog Cyngor Gwynedd a bu i Gwyndaf Roberts ei ddarllen yn ystod y cyfarfod. Adroddodd Siân Dafydd bod Cyngor Gwynedd eisoes wedi derbyn y ddogfen ildio ac na ddylid fod yna ffioedd cyfreithiol i'w talu. Siân am edrych drwy ddogfennau ac e-byst sydd ganddi ar y mater i weld beth a gadarnhawyd. Adroddwyd bod Iwan Fôn y trydanwr wedi bod yn yr ystafelloedd newid yn cario allan y gwiriadau ar y trydan yno ac yn disgwyl nawr am ei adroddiad. Y clerc i holi Iwan am yr adroddiad.
10. **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL LLYN AC EIFIONYDD 2023 - CYFRANIAD ARIANNOL** - Roedd y clerc wedi holi cynghorau cymunedau eraill beth oedd eu cyfraniad nhw i'r Eisteddfod ac roedd y ffigwr yn amrywio o gyngor i gyngor. Adroddwyd bod £3000 wedi ei neilltuo yn barod ar gyfer hyn felly cynigiodd Hefina Roberts ac eiliodd Ceri Owen ein bod yn cyfrannu £3000. Cytunodd pawb gyda hyn.
11. **LLWYBRAU A MYNWENTYDD** - Gofynnwyd i'r clerc atgoffa'r contractwyr am eu dyletswyddau ynghlwm a'r contract i yrru rhestrau misol o'r gwaith y maent wedi ei gario allan a hefyd bod angen anfoneb ganddynt bob tri mis. Roedd galwad wedi ei derbyn bod rhan o wal ym Mynwent Macpela wedi disgyn ac angen ei hatgyweirio. Roedd y contractwyr wedi rhoi pris o £930 + TAW am y gwaith. Gan fod y gwaith dros £500 penderfynwyd bod rhaid cael dau bris arall - felly eisiau cael hyn erbyn y cyfarfod nesaf. Y clerc a'r Cynghorydd Peter Thomas wedi derbyn cwynion am nad oes biniau yn y mynwentydd. Esboniodd Gwyndaf Roberts i Peter y sefyllfa gyda hyn a pam nad yw'r biniau yno bellach. Trafodwyd y mater ac roedd pawb yn unfrydol nad oes angen biniau a dylai pawb fynd a'r sbwriel adref gyda nhw. Cynigiodd Ffion y dylid rhoi arwyddion mwy yn y mynwentydd am hyn. Cytunodd pawb. Bydd angen cynnal is-bwyllgor llwybrau a mynwentydd cyn y cyfarfod llawn nesaf er mwyn trafod ffioedd a rheolau ayyb. Adroddodd Gwyndaf Roberts nad yw'r gwaith ffensio yn Macpela wedi ei ddechrau eto ond mae am gysylltu gyda'r contractwr sydd wedi cael y gwaith i weld pryd fydd y gwaith yn cael ei wneud. Er gwybodaeth adroddodd Dafydd Thomas bod cwynion wedi cêl eu derbyn yn Nebo am fod perchennog tir yno wedi cau un o'r llwybrau cyhoeddus a bod Cyngor Gwynedd yn cael trafferth gyda'r perchennog hwn.
12. **MATERION PENTREFI - NANTLLE** - Holodd Ffion os oedd ymateb wedi dod gan PCSO Aled Hughes ynglŷn â'r goryrru yn Nantlle - esboniodd y clerc nad oedd Aled ar gael i ddod i gyfarfod mis Mehefin o'r Cyngor fel y gobeithiwyd, ond am ddod i'r cyfarfod mis Gorffennaf. Gofynnodd Ffion a oedd modd cael ymateb ar y goryrru cyn hyn gan ei fod yn bwysig bod hyn yn cael sylw brys. Holwyd os oedd rhywun wedi edrych fewn i gael twmpathau cyflymder, yn anffodus gan fod y ffordd yn 'ffordd B' nid yw hyn yn bosib. Adroddwyd bod wal a cerb ar gornel Tai Glanllyfnwy wedi ei tharo a neb wedi eu trwsio - dywedodd Ceri Owen y buasai yn holi ADRA am hyn ac adrodd nôl i Ffion. **TALYSARN** - Y sticer ar yr arwydd 30 wrth ddod fewn i'r pentref dal heb gael sylw a hefyd nid yw'r ffens rhwng Talysarn a Phant Du wedi ei hatgyweirio. Dŵr yn llifo lawr ac i'r ffordd ger 1 Bryn Hyfryd. Chwyn yn tyfu ar ochr y ffyrdd ac yn blocio draeniau a dŵr yn casglu ar ochr y ffyrdd. Holwyd beth oedd y sefyllfa gyda'r canclwm a oedd wedi ei adrodd i Gyngor Gwynedd llynedd. **NEBO** - Y wal rhwng Penchwarel a Ffordd Nebo dal wedi disgyn a cherrig dal i fod yn disgyn oddi arni. Diolchodd Dafydd Thomas ar ran Pwyllgor Apêl Nebo a Nasareth am yr arian a dderbyniwyd gan y Cyngor Cymuned ar gyfer cael diffib yn y pentref a bob y diffib yn cael ei osod wythnos nesaf. Maent wedi casglu £3000 i gyd felly yn medru cael dau diffib. **PENYGROES** - Cwynion wedi eu derbyn ynglŷn â'r tyllau yn y ffordd yn y Stryd Fawr a hefyd am chwyn yn tyfu ar y palmentydd ayyb. Awgrymwyd efallai y buasai yn syniad gofyn i Dimau Taclus ddod draw i edrych a gwneud y gwaith hwn. Dau gerb yn Nhrem Y Wyddfa angen sylw. Wedi derbyn addewid ers talwm bod

gwaith yn mynd i gael ei wneud i wella cyflwr Ffordd Llwyndu ond dim wedi ei wneud hyd yn hyn. **LLANLLYFNI** - Baw ci dal i fod yn broblem. Cwynion wedi eu derbyn ynglŷn â chyflwr hen safle'r Cwari a gofyn i'r clerc gysylltu gyda'r perchnogion am hyn. Cyflwr ffordd y pentref yn siomedig i'w weld gyda'r tyllau ayyb. Coed yn tyfu o'r cae chwarae i Lôn Ddŵr ac angen eu tocio. Adroddodd y Cynghorydd Peter Thomas bod y draen a oedd wedi suddo ar Lôn Ddŵr wedi ei lenwi dros dro gan Gyngor Gwynedd ond mai Bwrdd Dŵr sydd yn gyfrifol am y gwaith o'i atgyweirio gan mai nhw oedd wedi bod yno yn cario gwaith allan. Y clerc i gysylltu gyda'r adrannau o fewn y cyngor ynglŷn â'r materion a godwyd o fewn y pentrefi.

13. **ADRODDIAD O GYFARFOD FFRWD GWAITH CYMUNEDOL A'R FFRWD GWAITH IECHYD** - Bu i Dafydd Thomas, Barry Bracegirdle, Ffion Jones a Gwyndaf Roberts fynychu'r cyfarfod hwn a siomedig iawn oeddynt ohono. Nid oedd dim amserlen i bryd oedd y gwaith am gael ei ddechrau. Cynigiodd Gwyndaf y dylid mynegi'r siomiant am hyn i Grŵp Cynefin.
14. **CEISIADAU CYNLLUNIO** - Nid oedd dim cais wedi dod i law'r mis hwn.
15. **TOILEDAU PENYNGROES** - Roedd y clerc wedi derbyn e-bost yn mynegi cwyn nad yw'r cyfleusterau cyhoeddus yn hysbys i bawb o ble maent ym Mhenygroes. Cynigwyd y dylid rhoi rhestr o'r cyfleusterau cyhoeddus ar arwydd a'i osod ar yr hen gyfleusterau. Mae'r busnesau hyn yn derbyn grant gan Gyngor Gwynedd er mwyn gadael i'r cyhoedd ddefnyddio eu cyfleusterau. Y clerc i holi'r cyngor am restr o'r busnesau hyn ac yna cael amcan bris gan Designer Signs am arwydd gyda'r wybodaeth arno.
16. **GOHEBIAETH** - Roedd pawb wedi derbyn copiâu o'r ohebiaeth a oedd wedi dod er mwyn cael edrych drostynt cyn y cyfarfod, ac os oeddynt eisiau codi unrhyw beth am yr ohebiaeth. **HISTORY POINTS - Penderfynwyd** cytuno gyda chais 'History Points' i roi placiau gyda chodau QR arnynt ar gyfer prosiect sydd ganddynt ar y gweill er mwyn i'r cyhoedd dderbyn hanes lleol are u ffonau clyfar - yn Nyffryn Nantlle hanes Idwal Jones sydd ganddynt mewn golwg, a oedd yn beilot awyren gynnar ac a fu yn hedfan efo 'Cobham's Flying Circus' cyn yr 2il Ryfel Byd. **YMGYNGHORIAD CYMUNEDOL PARC GLYNLLIFON** - gofyn i'r clerc ymateb i ddweud bod hyn wedi ei wneud yn barod - cytunodd pawb gyda hyn.
17. **MATERION ARIANNOL** - Trafodwyd a chytunwyd i dalu'r canlynol
- Robyns Owen Cyfreithwyr **£3.00** - dywedodd Siân Dafydd nad oedd y cwmni eisiau'r tâl yma. Diolchwyd yn fawr iawn iddynt am hyn.
  - Moss Computers **£60.00**
  - Nia Jones – Ffôn a rhyngwyd **£25.00**
  - Nia Jones – Zoom **£14.39**
- Trafodwyd a phenderfynwyd yn unfrydol nad oes pwrpas parhau i dalu'r zoom yn fisol a gofynnwyd i'r clerc i ganslo'r tanysgrifiad. Os bydd angen mae digon hawdd ei ail-ddechrau.

Diolchwyd i bawb am fod yn bresennol yn y cyfarfod.